

Rhaglen Gyflawn



north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Cyfarfod

BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

Dyddiad ac Amser

1.00 y.h., DYDD GWENER, 31AIN GORFFENNAF, 2020

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Pwynt Cyswllt

Eirian Roberts

01286 679018

EirianRoberts3@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 24/7/20)

BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

Hugh Evans	Cyngor Sir Ddinbych
Llinos Medi Huws	Cyngor Sir Ynys Môn
Mark Pritchard	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Ian B. Roberts	Cyngor Sir y Fflint
Dyfrig L. Siencyn	Cyngor Gwynedd
Sam Rowlands	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Ymgynghorwyr - Heb Bleidlais

Dafydd Evans	Grwp Llandrillo Menai
Maria Hinfelaar	Prifysgol Glyndwr
Yana Williams	Coleg Cambria
Jim Jones	Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy
Askar Sheibani	Bwrdd Cyflenwi Busnes
Yr Athro Iwan Davies	Prifysgol Bangor

Prif Swyddogion - Heb Bleidlais

Annwen Morgan	Cyngor Sir Ynys Môn
Iwan Davies	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Colin Everett	Cyngor Sir y Fflint
Judith Greenhalgh	Cyngor Sir Ddinbych
Ian Bancroft	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Dilwyn Williams	Cyngor Gwynedd

Swyddogion yn bresennol

Dafydd L. Edwards	Swyddog Adran 151
Iwan G. Evans	Swyddog Monitro
Alwen Williams	Cyfarwyddwr Rhaglen

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL 4 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 12 Mehefin, 2020 fel rhai cywir.

5. RHEOLI RISG 11 - 22

Adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans, Rheolwr Gweithrediadau.

6. CYTUNDEB LLYWODRAETHU 2 23 - 27

Adroddiad gan Iwan G. D. Evans, Swyddog Monitro – Awdurdod Lletya.

7. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU - YMGYSYLLTU A'R SECTOR PREIFAT 28 - 35

Adroddiad gan Alwen Williams, Cyfarwyddwr Rhaglen.

8. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod cynnwys yr eitem yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol a masnachol sensitif am y prosiectau. Mae hyn yn berthnasol i sefyllfa y cynghorau ond yn benodol y partiön sydd yn ceisio, neu yn bartneriaid ar gyfer prosiectau o fewn y Rhaglenni Cynllun Twf.

9. ADOLYGIAD GWAELODLIN PROSIECTAU

Adroddiad i'w gylchredeg ar wahân ar gyfer aelodau'r Bwrdd yn unig.

Eitem 4

BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU Dydd Gwener, 12 Mehefin 2020

BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU DYDD GWENER, 12 MEHEFIN 2020

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cyngorwyr:- Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Sam Rowlands (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Dyfrig L. Siencyn (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndŵr), Yr Athro David Thomas (Prifysgol Bangor), Steve Jackson (Coleg Cambria), Jim Jones (Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Glannau Dyfrdwy) ac Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes).

Prif Swyddogion – Annwen Morgan (Cyngor Sir Ynys Môn), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Judith Greenhalgh (Cyngor Sir Dinbych), Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Dilwyn Williams (Cyngor Gwynedd), Colin Everett (Cyngor Sir y Fflint).

Swyddogion yn bresennol – Alwen Williams (Cyfarwyddwr Rhaglen), Dafydd Edwards (Swyddog Cyllid Statudol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Jane Richardson (Cadeirydd Grŵp Swyddogion Gweithredol), Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau) ac Annes Sion (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

1. YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Bwrdd Uchelgais a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2020 fel rhai cywir.

5. PENAWDAU'R TELERAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams – Cyfarwyddwr Rhaglen.

PENDERFYNWYD

Nodi fod Penawdau'r Telerau wedi'u cwblhau.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Drafftwyd Cytundeb Penawdau'r Telerau gan y ddwy Lywodraeth yng nghyd-destun y Ddogfen Gynnig ac yn unol â'r cynnig gan y Bwrdd Uchelgais o fewn y Cynllun Gweithredu. Bu i'r Bwrdd Uchelgais drafod a chymeradwyo'r ddogfen drafft yn ystod cyfarfod y Bwrdd ar 26 Gorffennaf a 6 Medi 2019. Ar gyhoeddiad y ddogfen derfynol cyflwynwyd y ddogfen yn ffurfiol i'r Bwrdd i'w nodi yn gyhoeddus.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn cyflwyno fersiwn wedi'i lofnodi o'r cytundeb Penawdau'r Telerau a baratowyd yng nghyd-destun y Ddogfen Gynnig a'r Cynllun Gweithredu. Nodwyd fod angen penderfyniad i nodi fod y Penawdau'r Telerau wedi'i chwblhau.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Pwysleisiwyd fod lofnodi'r Penawdau'r Telerau yn arwyddocaol gan ei fod yn dangos ymrwymiad y ddwy Lywodraeth yn glir i waith y Bwrdd Uchelgais. Ategwyd fod y penawdau yn ogystal yn dangos partneriaeth dda gyda'r ddwy Lywodraeth a mynegwyd fod y Bwrdd yn edrych ymlaen at lofnodi'r ddogfen derfynol cyn diwedd y flwyddyn.

6. LLYWODRAETHU RHAGLENNI

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans – Rheolwr Gweithrediadau.

PENDERFYNWYD

Penderfynwyd i:

- Gadarnhau'r egwyddor o fabwysiadu dull rheoli rhaglenni a phrosiectau i gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cynnwys sefydlu Byrddau Rhaglen i oruchwylio'r cyflawni gweithredol.
- Cymeradwyo strwythur cyflawni arfaethedig fel sydd wedi'i amlinellu yn Atodiad 1 a Chylch Gorchwyl arfaethedig y Bwrdd Rhaglen fel sydd wedi'i amlinellu yn Atodiad 2.
- Cymeradwyo penodi Uwch Swyddogion Cyfrifol a Dirprwy Uwch Swyddogion Cyfrifol fel sydd wedi'i amlinellu yn Atodiad 3 a phenodi Aelod Arweiniol o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i eistedd ar bob Bwrdd Rhaglen.
- Nodi y bydd yr is-grwpiau presennol ar gyfer Ynni a Digidol yn cael eu disodli gan y Byrddau Rhaglen unwaith y byddent wedi'u sefydlu.
- Dirprwyo'r hawl i'r Cyfarwyddwr Rhaglen, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro a'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol i weithredu trefniadau llywodraethu'r rhaglen a gwneud yr holl benodiadau eraill i'r Byrddau Rhaglen.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Roedd angen i'r Bwrdd Uchelgais fabwysiadu model llywodraethu'r rhaglen yn seiliedig ar arfer gorau i sicrhau fod Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cael ei gyflawni'r llwyddiannus.

O ystyried graddfa a chymhlethdod y bartneriaeth a phortffolio'r gwaith sydd i'w gyflawni, mynegwyd angen i sefydlu model clir ar gyfer llywodraethu'r portffolio, y rhaglenni a'r

prosiectau.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r penderfyniad. Pwysleisiwyd pwysigrwydd llywodraethu ar gyfer prosiectau nid ar gyfer trefniadau ond ar gyfer y weledigaeth. Mynegwyd fod y model yn seiliedig ar ddull arfer gorau ar gyfer rheoli prosiectau ac yn adeiladau ar y strwythur sydd i'w gweld yn barod.

Amlygwyd mai'r prif newid oedd bod byrddau rhaglen yn cael ei sefydlu a fydd yn cael gwared â'r is-grwpiau. Ni fydd y rhain yn is-fyrddau ffurfiol o'r Bwrdd Uchelgais ond yn fyrddau rhaglen fydd yn goruchwyllo gwaith ac yn gynnig argymhellion nid gwneud penderfyniadau. Tynnwyd sylw at y strwythur gan amlygu pa Aelodau a fydd yn Aelod Arweiniol ar gyfer bob rhaglen, a fydd yn linc rhwng y byrddau a'r Bwrdd Uchelgais.

Mynegwyd fod y Bwrdd Uchelgais wedi ei amlygu fel Grŵp i gydlynu Adfer Economi yn dilyn Covid-19. Nodwyd mai nod ac amcan y grŵp cydlynu adfer Economi fydd i hwyluso'r cyfnod yn dilyn Covid.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Holwyd y sut mae'r strwythur Grŵp Adfer a'r Bwrdd Uchelgais yn gweithio gyda'i gilydd ac os bydd effaith ar brosiectau. Mynegwyd fod 4 thema wedi ei amlygu ar gyfer y grwpiau adfer ar draws y rhanbarth ac un o'r rhain yw'r economi ac y bydd mwy o wybodaeth yn cael ei hanfon at yr aelodau.
- Ychwanegwyd y bydd y Bwrdd drwy'r Grŵp Adfer yn gosod amcanion ac arwain ar y gwaith ond ddim yn ymateb yn uniongyrchol. Pwysleisiwyd y bydd angen gweithio mewn partneriaeth gyfer Llywodraeth.

7. CYTUNDEB LLYWODRAETHU 2

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Evans - Swyddog Monitro y Awdurdod Lletyol.

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd yr adroddiad ynghyd a'r Cynllun Prosiect Cytundeb Llywodraeth 2 diwygiedig yn ddarostyngedig i dderbyn diweddariad yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae cytundeb y bartneriaeth danategol a'r fframwaith llywodraeth yn allweddol i gytuno ar Gytundeb Llywodraeth 2 (GA2) cynhwysfawr. Mae'r GA2 yn ddogfen sy'n cyfundrefnu perthynas ac ymrwymiad y partion yn bennaf, ynghyd â'u cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd ynghyd â sefydlu'r fframwaith llywodraethu cefnogol. Roedd angen i'r Bwrdd graffu a chytuno rhaglen ar gyfer cwblhau y gwaith yma i gyd fynd a'r amcan o gwblhau y Cytundeb Terfynol yn ystod Rhagfyr 2020..

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddioad hwn wedi ei raglennu ar gyfer mis Mawrth er mwyn dilyn amserlen y cynllun gwaith er mwyn arwyddo'r cytundeb terfynol ym mis Rhagfyr ond fod Covid wedi ei gadw yn ôl hyn y cyfarfod hwn. Pwysleiswyd fod cytundeb Llywodraethu 2 yn allweddol ar gyfer Cytundeb Terfynol.

Nodwyd fod gweithdy Llywodraethu wedi ei gynnal i adnabod a deall y materion sydd angen cytuno arnynt neu eu datrys rhwng y partneriaid. Amlygwyd y materion allweddol. Amlygwyd fod llithriad yn yr amserlen sydd yn heriol ac y bydd angen adroddiad pellach yn y cyfarfod nesaf.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Nodwyd yr angen i sicrhau fod y drefn craffu mor syml â phosib ac yn disgyn i mewn i drefniadau sydd i'w gweld yn yr awdurdodau yn barod. Ychwanegwyd fod amserlen craffu mynd i'w gwneud yn anodd cyrraedd y targed o gwblhau'r cytundeb Twf Terfynol erbyn Rhagfyr 2020.
- Nodwyd y bydd adroddiad pellach cynhwysfawr yn cael ei gyflwyno i'r aelodau yn cyfarfod nesaf.

8. MODELAU MASNACHOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans – Rheolwr Gweithrediadau.

PENDEFYNIAD

Rhodddwyd sylwadau ar y papur gan nodi y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud gan y Swyddfa Raglen, y Grŵp Cefnogaeth Weithredol a Swyddogion Cyllid ar sut gellir defnyddio modelau masnachol i ddyrranu arian ar gyfer rhaglenni a phrosiectau, gan nodi y bydd adroddiad pellach ar y mater yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Fel rhan o'r gwaith datblygu achosion busnes y rhaglen, mae angen i'r Bwrdd Uchelgais ddatblygu y modelau ariannu ar gyfer y Rhaglenni a Phrosiectau. Roedd angen tynnu sylw at y math o fodelau masnachol ac ariannu posib a'r ystyriaethau fydd yn berthnasol all hefyd gyflwyno cyfle ailgylchu arian yn ôl i'r Cynllun Twf ar gyfer buddsoddiad pellach yn y dyfodol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r angen i fwrw ymlaen a'r gwaith ar fodelau masnachol ac ariannu fel rhan o'r pecyn o waith sydd ei angen ar gyfer sicrhau'r Cynllun Terfynol gyda'r Llywodraethau. Amlygwyd tri model posib a oedd yn grant, benthyciad neu fuddsoddiad neu gyfuniad o'r tri.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Mynegwyd fod y syniadau am fodelau yn agored i hyblygrwydd ac na fydd angen i bob prosiect i weithio'r un ffordd.
- Nodwyd fod angen edrych ar hyn i sicrhau arian ar gyfer buddsoddi mewn prosiectau, ac y bydd adroddiad pellach i ddilyn.
- Pwysleisiwyd mai edrych ar ffordd o ddefnyddio'r arian sydd gan y Bwrdd yw'r modelau rhain ac nid chwilio am fwy o fuddsoddiad.

9. ADRODDIAD ALLDRO 2019/20

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dafydd Edwards – Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletyol.

PENDERFYNIAD

Nodwyd a derbyniwyd Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2019/20.

Cymeradwywyd ffurflen flynyddol swyddogol y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2019/20 (amodol ar Archwiliad Allanol), oedd wedi'i gwblhau a'i ardystio'n briodol gan Swyddog Cyllid Statudol y Cyd-bwyllgor yn unol â'r amserlen statudol, sef 15 Mehefin 2020.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn ymwybodol o'i sefyllfa ariannol ar gyfer 2019/20 a chydymffurfio a'r gofynion statudol yn nhermau cwblhau'r adroddiad blynyddol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn nodi'r cyfrifon terfynol ac y bydd angen cymeradwyaeth i'r ffurflen flynyddol swyddogol y Cyd bwyllgor. Ychwanegwyd y bydd y cyfrifon a'r adroddiad yn destun archwiliad gan Deloitte a pe byddai angen unrhyw newidiadau, caiff fersiwn diwygiedig ei gyflwyno yn y cydbwyllgor nesaf.

Tynnwyd sylw at y tanwariant gan nodi'r rhesymau dros y tanwariant a oedd yn cynnwys gostyngiad i wasanaethau cefnogol y Corff Atebol. Ychwanegwyd nad oedd arian Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd wedi ei dderbyn tan fis Mai 2020 ac felly nid yw'n ymddangos yn y cyfrifon 2019/20. Felly, ychwanegwyd caiff ei ail hawlio'n ôl-weithredol yn ystod 2020/21 a'i ôl-ddyddio i 1 Gorffennaf 2018. Amlygwyd fod tanwariant o £161,316 a'i fod wedi ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn a'i glustnodi i roi gweddill o £497,529 a fydd ar gael i ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth codwyd y materion a ganlyn:-

- Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith.
- Mynegwyd fod llythyr cadarnhad am arian Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd wedi ei dderbyn a bydd hyn yn galluogi'r Tîm Swyddfa Rhaglen i ddechrau paratoi ar gyfer y cyfnod nesaf i ddod.

10. CYLLIDEB 2020/21

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dafydd Edwards – Pennaeth Cyllid yr Awdudod Lletyol.

PENDERFYIAD

Cymeradwywyd Cyllideb 2020/21 gydag Arian Grant ESF (Atodiad 1b) a rhoddwyd yr hawl i'r Cyfarwyddwr Rhaglen mewn ymgynghoriad â Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd a'r Cadeirydd, i ymrwymo hyd at £100,000 ychwanegol o'r gronfa wrth gefn yn ystod y flwyddyn, ar y pennawd Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau pe bai angen hynny, er mwyn cynnal a gwireddu amserlen y rhaglen waith ar gyfer y Cytundeb terfynol.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae angen i'r Bwrdd Uchelgais osod y gyllideb arfaethedig fesul pennawd gwariant a'r ffrydiau ariannu cyfatebol ar gyfer y flwyddyn. Drwy dderbyn cymeradwyaeth y Bwrdd, mae modd gweithredu'n effeithiol o fewn y gyllideb sydd ar gael

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nod fod yr eitem hon wedi cael ei gytuno dros e-bost yn dilyn gohirio'r cyfarfod blaenorol o ganlyniad i argyfwng yr haint Covid-19 er mwyn i'r

Bwrdd Uchelgais gael gweithredu dros y ddau fis diwethaf. Ychwanegwyd pan ysgrifennwyd yr adroddiad nad oedd cadarnhad ffurfiol wedi ei dderbyn ar gyfer y grant ESF ac felly fod angen i'r aelodau ganolbwyntio ar senario 2 yn y gyllideb.

Amlygwyd y prif newidiadau a fydd rhwng cyllideb 2019/20 a 2020/21 gan y bydd cynnydd yn y costau staffio a gostyngiad yn y gyllideb ar gyfer cynllunio, datblygu a chefnogi prosiectau. Ychwanegwyd y bydd Incwm Grant y Cais Twf yn cael ei dderbyn yn ystod y flwyddyn ond os bydd yn cael ei dderbyn yn ystod y chwarter olaf, ategwyd y byddant yn ymdrin â hynny'r bryd hynny.

Tynnwyd sylw ar yr angen i wneud trosglwyddiadau unwaith ac am byth i'w hariannu o'r gronfa wrth gefn i ariannu gwariant dan y penawdau canlynol "Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus" a "Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau". Trafodwyd y Gyllideb gan nodi fod y gyllideb yn defnyddio £272,470 i ariannu gwariant unwaith ac am byth a fydd yn gadael gweddill o £358,000 yn y gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth codwyd y materion a ganlyn:-

- Diolchwyd i'r tîm cyllid am eu gwaith a nodwyd fod angen ymrwymo £100,000 ychwanegol i'r pennawd Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau i sicrhau fod cynlluniau yn cael eu cwblhau.

11. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd i gau allan y wasg a'r cyhoedd ar gyfer y ddwy eitem ganlynol.

12. ADOLYGIAD GWAELODLIN PROSIECTAU

PENDERFYNIAD

1. Nodi cynnwys yr adroddiad adolygiad gwaelodlin a'r cyflwyniad a wnaed yn y cyfarfod.
2. Nodi y bydd y Cynllun Terfynol gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru yn seiliedig ar Achosion Busnes y Rhaglen.
3. Cytuno i brosiect Datgarboneiddio Trafnidiaeth Rhanbarthol gael ei gyflawni fel rhan o'r Rhaglen Ynni Carbon Isel ac na fydd achos busnes Rhaglen Trafnidiaeth penodol yn cael ei ddatblygu fel rhan o gytundeb y Cynllun Terfynol.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Roedd y Swyddfa Rhaglen wedi cynnal adolygiad gwaelodlin o'r 14 prosiect a chwe rhaglen sy'n ffurfio rhan o Gynllun Twf Gogledd Cymru. Yn dilyn yr adolygiad roedd angen diweddarau'r Bwrdd Uchelgais ar sefyllfa pob rhaglen a'r broses i gyflawni'r cynllun terfynol.

TRAFODAETH

Trafodwyd yr adoddiad.

13. BWRDD CYFLAWNI BUSNES

PENDERFYNIAD

Oherwydd y newid mewn cyd-destyn gohirio symud ymlaen a'r broses penodi Cadeirydd i'r Bwrdd Cyflawni Busnes er mwyn rhoi cyfle i'r Bwrdd Uchelgais ystyried oedd angen adolygu rôl y Bwrdd Cyflawni Busnes.

Fod adroddiad pellach i'w gyflwyno yn dilyn ymgynhoriad a'r sector breifat a'r Bwrdd Cyflawni Busnes.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD


O ystyried bod chwe mis wedi mynd heibio ers i'r rhestr fer o ymgeiswyr gael ei chreu, Covid-19 wedi newid y cyd-destun economaidd rhanbarthol yn sylweddol ynghyd a newidiadau safbwynt o ran mewnbwn y 2 Lywodraeth i'r penodiad, roedd angen i'r Bwrdd Uchelgais adlewyrchu ar y sefyllfa ac ystyried sut i symud ymlaen.

TRAFODAETH

Trafodwyd yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.50 y.h.

CADEIRYDD



ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

31 Gorffennaf, 2020

TEITL: *Rheoli Risg*

AWDUR: *Hedd Vaughan-Evans, Rheolwr Gweithrediadau*

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw diweddarau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar drefniadau rheoli risg er mwyn cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Mabwysiadu'r Fframwaith Rheoli Risg sydd ynghlwm ac fel yr amlinellir yn **Atodiad 1** a gofyn i'r Swyddfa Rhaglen ddatblygu Strategaeth Rheoli Risg yn unol â'r egwyddorion yn y fframwaith fel rhan o'r pecyn terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

2.2. Adolygu a rhoi sylwadau ar y Gofrestr Risg gyfredol fel yr amlinellir yn **Atodiad 2** a nodi y caiff y gofrestr risg ei hadolygu yn unol â'r fframwaith newydd.

3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae angen i'r Swyddfa Rhaglen osod trefniadau rheoli risg effeithiol er mwyn sicrhau y gellir cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru yn llwyddiannus.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn bortffolio cymhleth sydd ar hyn o bryd yn cynnwys 14 prosiect ar draws pump rhaglen waith, gyda chyfanswm gwerth o tua £1 biliwn i'w cyflawni dros y 15 mlynedd nesaf. Mae Rhaglen Sgiliau ychwanegol yn eistedd y tu allan i delerau'r Cynllun Twf ond mae'n gydran hanfodol o gyflawni'r weledigaeth ar gyfer y Gogledd. Caiff hyn ei gyflawni gan y Swyddfa Rhaglen, ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, partneriaeth o chwe awdurdod lleol, dwy brifysgol, dau sefydliad addysg bellach a chyngor busnes. O ystyried graddfa a chymhlethdod y bartneriaeth a phortffolio'r gwaith sydd i'w gyflawni, mae angen rhoi trefniadau rheoli risg effeithiol a chadarn yn eu lle.

4.2. Y fframwaith rheoli risg arfaethedig yw cychwyn y broses hon, a fydd yn sefydlu hierarchaeth glir y caiff risgiau ar bob lefel o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru eu rheoli drwyddi.

4.3. Mae **Atodiad 1** yn amlygu'r fframwaith rheoli risg arfaethedig.

4.4. **Atodiad 2** yw'r gofrestr risg gyfredol y bydd angen ei hadolygu yn sgil mabwysiadu'r fframwaith.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Dim ar hyn o bryd.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Dim ar hyn o bryd.

7. GOBLYGIADAU STAFFIO

7.1. Dim ar hyn o bryd.

8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

8.1. Dim ar hyn o bryd.

9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIUYD

9.1. Trafodwyd cynnwys yr adroddiad hwn yn y Grŵp Cefnogaeth Weithredol ar 17 Gorffennaf, 2020.

ATODIADAU:

Atodiad 1	Fframwaith Rheoli Risg
Atodiad 2	Cofrestr Risg Cynllun Twf Gogledd Cymru


YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:

“Mae monitro risiau’r prosiect yn un o dasgau allweddol y BUE. Mae gofyn i’r Bwrdd ystyried y gofrestr a bodloni ei hyn ei fod yn cynrychioli adlewyrchiad gywir o statws risg a fod y gweithrediadau lleddfu yn cael eu cyfarch.”

ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):

“Credaf fod y Fframwaith Rheoli Risg newydd yn addas ac rwy'n cefnogi'r cynnig i'r Bwrdd gymeradwyo. Mae rhai o'r sgoriau risg yn yr atodiad yn fater o farn a dehongliad, tra mae sawl mater yn datblygu / eto i'w gadarnhau, ac rwy'n bwriadu adolygu agweddau cyllidol o'r Gofrestr Risg gyda'r awdur. Cyflwynir sylwadau pellach ar lafar, fel bo angen, yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor (BUEGC).”




ATODIAD 1 - FFRAMWAITH RHEOLI RISG

Hierarchaeth Risg

Mae tair lefel o risg y bydd y Swyddfa Rhaglen yn ymdrin â hwy:

- **Risgiau Lefel Portffolio** - Mae risg portffolio yn ddigwyddiad neu'n amod ansicr a fydd, os bydd yn digwydd, yn cael effaith ar un neu fwy o nodau strategol portffolio'r Cynllun Twf. Un gofrestr risg portffolio fydd. Y Bwrdd Uchelgais fydd perchennog y gofrestr risg hon a bydd yn cael ei rheoli gan y Swyddfa Rhaglen ar ei ran. Bydd gan y Bwrdd Uchelgais risgiau strategol ychwanegol a fydd yn eistedd y tu allan i'r fframwaith hwn ac a fydd yn ymwneud â'r Weledigaeth Twf gyffredinol ar gyfer y Gogledd.
- **Risg Lefel Rhaglen** - Mae risg rhaglen yn ddigwyddiad neu'n amod ansicr a fydd, os bydd yn digwydd, yn cael effaith ar o leiaf un budd rhaglen. Bydd gan bob rhaglen ei chofrestr risg ei hun. Y Swyddfa Rhaglen fydd perchennog y cofrestrau risg hyn a byddant yn cael eu rheoli gan y Rheolwyr Rhaglen perthnasol.
- **Risgiau Lefel Prosiect** - Mae risg prosiect yn ddigwyddiad neu'n amod ansicr a fydd, os bydd yn digwydd, yn cael effaith ar o leiaf un amcan prosiect. Bydd gan bob prosiect ei gofrestr risg ei hun. Y Partner Cyflawni Arweiniol ar gyfer y prosiect penodol fydd perchennog y cofrestrau risg hyn a byddant yn cael eu rheoli gan y Rheolwyr Prosiect perthnasol. Bydd gan Reolwyr Rhaglen fynediad a goruchwyliaeth dros yr holl gofrestrau risg prosiect o fewn eu rhaglen gyda chyfrifoldeb i herio a darparu swyddogaeth sicrwydd ansawdd.



Proses Dyrchafu Risgiau

Risgiau Prosiect > Rhaglen: Caiff risgiau prosiect o bryder sylweddol eu dyrchafu i'w hystyried fel rhan o'r Gofrestr Risg Rhaglen os ystyrir eu bod yn fygythiad i'r rhaglen ehangach a'i buddion disgwylidig.

Risgiau Rhaglen > Portffolio: Caiff risgiau rhaglen o bryder sylweddol eu dyrchafu i'w hystyried fel rhan o'r Gofrestr Risg Portffolio os ystyrir eu bod yn fygythiad i'r rhaglen ehangach a/neu nodau strategol y Bwrdd Uchelgais.



north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Cofrestr Risg y Rhaglen
Cam Cynllunio a Datblygu

Cyfeirnod	Teitl	Disgrifiad o'r Risg	A Tebygolrwydd (0-10)	B Effaith (0-10)	Cyfanswm Gwerth Risg (A x B)	Lliniaru	Gweithred gyda	Gweithred gan	Statws	Perchnogaeth
Y CYNLLUN TERFYNOL										
FD 01	Colli Personél sy'n meddu ar wybodaeth a chefnidir	Trosiant staff a gweinidogion a cholli arbenigedd a pherthnasau gydag effaith ar amserlenni. (Mae hyn yn berthnasol i'r rhanbarth a'r ddwy Lywodraeth)	8	6	48	(1) Llofnodi'r Cynllun Terfynol erbyn Rhagfyr 2020 (2) Cynnal perthynas gref gyda'r ddwy Lywodraeth. (3) Swyddfa'r Rhaglen wedi'i sefydlu. (4) Uwch Swyddogion Cyfrifol a Dirprwy Uwch Swyddogion Cyfrifol wedi'u penodi	Y Bwrdd Uchelgais / LI y DU / LIC	Parhaus	Byw	Y Bwrdd Uchelgais
FD 02	Cymeradwyo Modelau Busnes Pum Achos	Methu cytuno/llofnodi Modelau Busnes Pum Achos (gan LI y DU a LIC).	4	10	40	(1) Cyfarfodydd wyneb yn wyneb rheolaidd gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i drafod yr Achosion Busnes Amlinellol. (2) Y Bwrdd Uchelgais a'r Bwrdd Cyflawni Busnes i herio'r Modelau Busnes Pum Achos. (3) Templed Achos Busnes y Rhaglenni wedi'i gytuno gyda LIC.	Y Bwrdd Uchelgais / LI y DU / LIC	Parhaus	Byw	Y Bwrdd Uchelgais
FD 03	Capasiti i gyflawni'r Cynllun Terfynol	Capasiti o fewn y Bartneriaeth i gyflawni'r Cynllun Terfynol erbyn Rhagfyr 2020 yn enwedig yn sgil Covid-19.	8	8	64	(1) Ymgynghorwyr Achos Busnes wedi'u penodi i gefnogi'r broses; (2) Uwch Swyddogion Cyfrifol a Dirprwy Uwch Swyddogion Cyfrifol wedi'u penodi (3) Y broses recriwtio wedi cychwyn	Swyddfa Rhaglen	Parhaus	Byw	Y Bwrdd Uchelgais
LLYWODRAETHU										
GO 04	Y partneriaid yn cymryd rhan lawn yn y Bwrdd	Partneriaid heb ymgysylltu'n ddigonol yng ngwaith y Bwrdd gan arwain at: - <ul style="list-style-type: none"> • Presenoldeb annigonol yng nghyfarfodydd y Bwrdd gan un neu fwy o bartneriaid; • Statws eilradd i bartneriaid nad ydynt yn Awdurdodau Lleol; • Un neu fwy Awdurdod Lleol ddim yn ymgysylltu. 	3	8	24	(1) Ymrwymiad gan holl aelodau'r Bwrdd.	Pob partner	Parhaus	Byw	Y Bwrdd Uchelgais
GO 06	Drafftio Cytundeb Llywodraethu 2	Methu datblygu Cytundeb drafft yn amserol er mwyn i bartneriaid ei ystyried ac yn barod	5	10	50	(1) Capasiti cyfreithiol wedi'i gomisiynu (Pinsents) i arwain a chynghori ar ddrafftio'r Cytundeb	Penaethiaid Cyfreithiol	31/08/2020	Byw	Penaethiaid Cyfreithiol

Cyfeirnod	Teitl	Disgrifiad o'r Risg	A Tebygolrwydd (0-10)	B Effaith (0-10)	Cyfanswm Gwerth Risg (A x B)	Lliniaru	Gweithred gyda	Gweithred gan	Statws	Perchnogaeth
		ar gyfer cam cyflawni'r Cynllun Twf terfynol.				Llywodraethu. (2) Cynllun prosiect i gael ei ddatblygu ar gyfer GA2. (3) Cynghorau a Phartneriaid i roi ystyriaeth lawn i GA2. (4) Gweithdy i drafod materion GA2.				
GO 07 Tud. 15	Mabwysiadu Cytundeb Llywodraethu 2 a Cytundeb Twf Terfynol	Risg bod un neu fwy o bartneriaid yn peidio â mabwysiadu Cytundeb Llywodraethu 2 a/neu Cytundeb Twf Terfynol	7	8	56	(1) Sicrhau bod rhwydweithiau proffesiynol ynghlwm â chytuno i'r cynnwys (Penaethiaid Cyfreithiol, Prif Swyddogion Cyllid a'r Grwpiau Proffesiynol yr effeithir arnynt) (2) Sylw gofalus a manwl gan y partneriaid i gydbwysu risgiau a rhwymedigaethau gyda'r buddion - ar y cyd ac yn unigol i bartneriaid - yng Nghytundeb Llywodraethu 2 a'r Cytundeb Twf terfynol ei hun (3) Eirioli Cytundeb Llywodraethu 2 ac y Cytundeb Twf Terfynol o fewn yr holl sefydliadau partner cyn gwneud y penderfyniad ffurfiol i fabwysiadu gydag arweinyddiaeth gref a phenderfynol o fewn pob sefydliad partner (4) paratoi adroddiad templed cadarn wedi'i gefnogi gan gyngor cyfreithiol ac ariannol (5) Parodrwydd i symud ymlaen â swyddogaethau ychwanegol neu sy'n cael eu gwadu ar sail raddol, h.y. dechrau GA2 ar sail fwy cyfyng os oes unrhyw anghydfod ynghylch ystod ehangach o swyddogaethau'n cael eu dirprwyo i'r Cyd-bwyllgor neu fyw gyda mwy o faterion a gedwir yn ôl.	Pob partner	31/12/2020	Heb agor eto	Y Bwrdd Uchelgais
GO 09	Trefniadau Craffu	Methu cytuno ar Drefniadau Craffu.	6	5	30	(1) Adroddiad am Drefniadau Craffu i'r Bwrdd Uchelgais. (2) Trefniadau manwl i'w gwneud o fewn GA2.	Penaethiaid Cyfreithiol a'r Grŵp Gweithredol	31/08/2020	Byw	Y Bwrdd Uchelgais
GO 11	Proses Benodi gyhoeddus ar gyfer Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes	Methu penodi Cadeirydd i'r Bwrdd Cyflawni Busnes.	6	8	48	(1) Ar 12/06/2020, cytunodd y Bwrdd Uchelgais i oedi'r broses recriwtio ac adolygu'r Grŵp Cyflawni Busnes	Swyddfa Rhaglen	I'W GADARNHAU	Byw	Y Bwrdd Uchelgais a'r Swyddfa Rhaglen
CYLLID										
FIN 01	Cyfraniadau i'r gyllideb gan bartneriaid	Partneriaid yn methu cytuno ar gyfraniadau i'r gyllideb. Cyfraniadau ariannol annigonol gan bartneriaid.	4	7	28	(1) Mae cyfraniadau i'r gyllideb wedi'u hymgorffori o fewn GA1. (2) Y Bwrdd Uchelgais i gytuno ar gyfraniadau cyllideb ar gyfer 2019/20 yng nghyfarfod y Bwrdd Uchelgais ar 15/03/2019.	Gwynedd a phob partner	Parhaus	Byw	Y Bwrdd Uchelgais a Phrif Swyddog Cyllid y corff atebol

Cyfeirnod	Teitl	Disgrifiad o'r Risg	A Tebygolrwydd (0-10)	B Effaith (0-10)	Cyfanswm Gwerth Risg (A x B)	Lliniaru	Gweithred gyda	Gweithred gan	Statws	Perchnogaeth
						(3) Y Bwrdd Uchelgais i gytuno ar gyfraniadau i'r gyllideb o fewn GA2				
FIN 02	NNDR a chyfalafu	Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Bwrdd wneud cynnig ar y cymorth ariannol y mae ei angen gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwneud i'r Cynllun Twf weithio. Mae'r risgiau fel a ganlyn: - <ul style="list-style-type: none"> Methu cytuno ar y gofynion ar gyfer NNDR a chyfalafu. Y rhanbarth yn methu adnabod / cytuno ar ymrwymadau a phroffiliau prosiectau ddigon cynnar er mwyn cyflwyno ymateb amserol Y gofyn ddim yn cael ei dderbyn Mae'r mater yn un effaith uchel oherwydd cyfyngiadau cyllidebau o fewn Awdurdodau Lleol a'r gofyn i ariannu'r Cynllun Twf (diddordeb a swyddfa rhaglen) yng nghyd-destun torri gwasanaethau lleol gyda grantiau i'r llywodraeth yn lleihau yn sgil y polisi llymder.	3	6	20	(1) Cyn-amod i hyn yw sgopio'r rhaglen a chyfrifo beth fydd ei chost (2) Mae angen i'r rhanbarth gomisiynu darn o waith i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru gyda nifer o ofynion wedi'u dadlau'n dda yn cynnwys: - <ul style="list-style-type: none"> Cyfradd cadw NNDR, Cyfalafu cyflogau lle bo hynny'n bosib a Chymhorthdal llog. (3) Gweithio gydag aelodau etholedig i'w paratoi nhw i wrthbwyso pwysau refferni'r Cynllun Twf gyda chyfres o fuddion yn lleol ac i'r rhanbarth.	Pob partner	31/08/2020	Byw	Y Bwrdd Uchelgais a Phrif Swyddog Cyllid y corff atebol
FIN 03	Gofynion benthyca'r Awdurdodau Lleol	Methu adnabod a chytuno ar ofynion benthyca'r Awdurdodau Lleol a'r partneriaid. Mae'r risgiau allweddol fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> Bod yn agored i gost taliadau llog Dosrannu costau rhwng cynghorau a phartneriaid 	3	8	24	(1) Trefn y prosiectau. (2) Parhau â gwaith da'r Prif Swyddogion Cyllid a chynnwys Prif Swyddogion Cyllid y partneriaid, gan gynhyrchu costau dangosol a mecanweithiau ariannu i'w hystyried gan y Bwrdd. (3) Bydd gofynion benthyca yn amrywio yn ôl trefn a phroffil y prosiectau.	Swyddfa Rhaglen a'r Prif Swyddogion Cyllid	31/08/2020	Byw	Y Bwrdd Uchelgais a Phrif Swyddog Cyllid y corff atebol
FIN 04	Cynllun Ariannol	Methu cytuno ar y Cynllun Ariannol	6	10	60	(1) Corff Atebol / Bwrdd Uchelgais i gymeradwyo'r Cynllun Ariannol	Pob partner	31/08/2020	Byw	Y Bwrdd Uchelgais a'r Corff Atebol
Y SWYDDFA RHAGLEN										
PO 02	Swyddfa Rhaglen	Diffyg capasiti a gallu i gyflawni'r rhaglen wedi'r Cynllun Terfynol	5	8	40	(1) Cyllid ESF wedi'i sicrhau i ehangu'r Swyddfa Rhaglen (2) Ymgyrch recriwtio ar y gweill ar gyfer swyddi gwedd 1 (3) Adolygu'r strwythur cyn swyddi gwedd 2 i sicrhau bod gan y Swyddfa Rhaglen y capasiti/gallu cywir.	Y Bwrdd Uchelgais a'r Swyddfa Rhaglen	Parhaus	Byw	Y Bwrdd Uchelgais a'r corff atebol
STRATEGAETHAU A PHROSIECTAU A GOMISIYNWYD										
CSP 01	Y Broses Cymeradwyo Prosiectau	Methu cytuno ar broses i gymeradwyo prosiectau a fyddai wedyn yn arwain at	4	7	28	(1) Cytuno ar ymagwedd ddeuol ar gyfer y 14 prosiect. (2) Cyflawni Modelau Busnes Pum Achos cryf.	Cyfarwyddwr Arweiniol /	31/03/2020	Heb agor eto	Y Bwrdd Uchelgais

Cyfeirnod	Teitl	Disgrifiad o'r Risg	A Tebygolrwydd (0-10)	B Effaith (0-10)	Cyfanswm Gwerth Risg (A x B)	Lliniaru	Gweithred gyda	Gweithred gan	Statws	Perchnogaeth
		weithdrefnau llofnodi hirfaith a chymhleth ar gyfer yr achosion busnes sy'n cynnwys sawl partner gan oedi buddsoddiad.				(3) Sesiynau herio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. (4) Proses gymeradwyo wedi'i dirprwyo (dirprwyo o'r Cynghorau a'r Partneriaid a'r llywodraethau i'r Bwrdd Uchelgais).	Pob partner			
CSP 03	Cynlluniau Ochr	Methu cytuno ar Gynlluniau Ochr a Phartneriaethau gyda LIC	5	8	40	(1) Neilltuo adnoddau i arwain ar drafodaethau ynghylch Cynlluniau Ochr. (2) Sefydlu ffrydiau gwaith clir, negodi prosesau ac atebolrwydd ar gyfer cynlluniau ochr. (3) Ymchwilio'n gynnar i'r dymuniad am gydweithio rhwng Cynghorau i gronni adnoddau i eistedd law yn llaw â thimau rhanbarthol LIC. (5) Gwaith ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer pob partneriaeth rhwng Cynghorau a LIC.	Pob partner	31/12/2020	Heb agor eto	Y Bwrdd Uchelgais
CSP 04	Cyflawni Prosiectau	Methu cyflawni ar y prosiectau yn arwain at adolygiad ariannu - colli hygredd	2	10	20	(1) Cytuno ar y Cynllun Terfynol a'r broses cymeradwyo prosiectau; (2) Ymrwymiad adnoddau i'r prosiectau. (3) Swyddfa Rhaglen yn ei lle ac yn rheoli'r prosiectau.	Pob partner	31/12/2020	Byw	Y Bwrdd Uchelgais
CSP 05	Y sector preifat yn tynnu'n ôl	Risg o bartner sector preifat sylweddol yn tynnu'n ôl o brosiect o fewn y rhanbarth yn tansilio strategaeth sylfaenol a/neu brosiectau'r rhanbarth.	8	8	64	(1) Sicrhau Cynllun Terfynol erbyn Rhagfyr 2020; (2) Rhestr o brosiectau. (3) Y Bwrdd Uchelgais i fod yn ymatebol i unrhyw newidiadau o fewn y rhanbarth, fel y dangoswyd gydag atal Wylfa Newydd. (4) Cyflawni'r Cynllun yn amserol fel bod y prosiectau'n parhau'n hyfyw dros oes ddatblygol y Cynllun. (5) Parhau i ymgysylltu gyda'r sector preifat ar lefel Cynllun Twf a phrosiectau.	Pob partner	Parhaus	Byw	Y Bwrdd Uchelgais
CSP 07	Cyfle buddsoddiad masnachol	Colli cyfle buddsoddiad masnachol	7	8	56	(1) Ymgysylltu parhaus gyda'r sector; (2) Cyflawni'r Cynllun Twf yn amserol.	Pob partner	Parhaus	Byw	Y Bwrdd Uchelgais
CSP 08	Gwaith rhagarweiniol	Bydd angen i'r Bwrdd Uchelgais fuddsoddi mewn gwaith rhagarweiniol cyn cyrraedd y cynllun terfynol.	6	8	48	(1) Adnabod y gwaith rhagarweiniol sydd ei angen ar gyfer prosiectau a rhaglenni; (2) Trafod posibiliadau i dynnu cyllid i lawr yn gynnar ar gyfer y gwaith rhagarweiniol.	Pob partner	Parhaus	Byw	Y Bwrdd Uchelgais
CYFREITHIOL A CHAFFAEL										
LP 02	Caffael	Methu cytuno ar Strategaeth Caffael.	4	7	28	(1) Mabwysiadu strategaeth caffael y corff atebol.	Y Corff Atebol a'r Swyddfa Rhaglen	31/12/2020	Heb agor eto	Y Bwrdd Uchelgais
LP 03	Y Cynllun Terfynol	Methu llofnodi'r Cynllun Terfynol ymhen 15 mis	5	10	50	(1) Cynnal deialog cryf gyda'r ddwy Lywodraeth, er mwyn trafod unrhyw faterion.	Y Bwrdd Uchelgais	31/12/2020	Heb agor eto	Y Bwrdd Uchelgais
Y CYNLLUN MONITRO A GWERTHUSO										
MP 02	Monitro a Gwerthuso	Methu datblygu Cynllun Monitro a	5	5	25	(1) Datblygu Cynllun Monitro a Gwerthuso.	Swyddfa	31/12/2020	Heb agor	Y Bwrdd

Cyfeirnod	Teitl	Disgrifiad o'r Risg	A Tebygolrwydd (0-10)	B Effaith (0-10)	Cyfanswm Gwerth Risg (A x B)	Lliniaru	Gweithred gyda	Gweithred gan	Statws	Perchnogaeth
		Gwerthuso.				(2) Datblygu fframwaith perfformiad. (3) Cydlynu'n ganolog.	Rhaglen		eto	Uchelgais
YMGYSYLLTU A CHYFATHREBU Â RHANDEILIAID										
SEC 01	Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid	Methu cydymffurfio â'r protocol cyfathrebu. Difrod i enw da partneriaid a phrosiectau ynghyd â'r Cynllun yn gyffredinol.	5	5	25	(1) Cynllun a Phrotocol Cyfathrebu yn eu lle. (2) Cynllun a Phrotocol Cyfathrebu wedi'u rhannu gyda phawb sydd ynghlwm. (3) Recriwtio Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu	Pob partner	Parhaus	Byw	Y Bwrdd Uchelgais

RISGIAU SYDD WEDI CAU

Cyfeirnod	Teitl	Disgrifiad o'r Risg	A Tebygolrwydd (0-10)	B Effaith (0-10)	Cyfanswm Gwerth Risg (A x B)	Lliniaru	Gweithred gyda	Gweithred gan	Statws	Perchnogaeth
RISGIAU SYDD WEDI CAU										
GO 01	Cytundeb Llywodraethu 1	Risg bod un neu fwy o bartneriaid yn peidio â mabwysiadu Cytundeb Llywodraethu 1	0	10	10	(1) Eirioli Cytundeb Llywodraethu 1 o fewn yr holl sefydliadau partner cyn gwneud y penderfyniad ffurfiol i fabwysiadu (2) arweinyddiaeth gref a phenderfynol o fewn pob sefydliad partner (3) paratoi adroddiad templed cadarn wedi'i gefnogi gan gyngor cyfreithiol ac ariannol	Wedi Cau	Wedi Cau	Wedi Cau	Penaethiaid Cyfreithiol
MP 01	Cofrestr Risg	Methu datblygu a diweddarau cofrestr risg	4	7	28	(1) Datblygu cofrestr risg ar gyfer gwella dros amser ac adolygu a diweddarau'r asesiad risg yn rheolaidd	Y Corff Atebol, y Grŵp Gweithredol a'r Swyddfa Rhaglen	Wedi Cau	Wedi Cau	Y Bwrdd Uchelgais
GO 03	Trosglwyddo i'r Cyd-bwyllgor	Methu trosglwyddo i Gyd-bwyllgor ffurfiol, gydag adnoddau llawn, i fodloni gofynion Cytundeb Llywodraethu 1 ac yn barod ar gyfer cam cyflawni'r Cynllun Twf terfynol. Ariannu (ar gyfer y corff atebol a'r swyddfa rhaglen) yw'r prif risg i'r trosglwyddiad hwn.	1	10	10	(1) Pob parti yn llofnodi ac yn selio GA1 (2) Cytundeb wedi'i gynllunio i'r trosglwyddiad ddigwydd yn y Bwrdd ar 01.02.19 (1) Paratoi ar gyfer y trosglwyddo wedi'i gytuno gyda'r Awdurdod Lletya (2) Adroddiad i'r Bwrdd Uchelgais ar 1 Chwefror i weithredu'r trosglwyddiad (2) Ariannu ar gyfer GA1 i'w gytuno ar gyfer 2019/20	Prif Weithredwr Arweiniol a Chyngor Gwynedd	Wedi Cau	Wedi Cau	Y Bwrdd Uchelgais
GO 05	Adnabod a chytuno ar raglen waith chwe mis ar gyfer y Cyd-bwyllgor yn	Y risg dan sylw yw na fydd y rhaglen waith wedi'i chytuno na'i datblygu'n ddigonol o'r amlinell er mwyn cael ei chyflwyno i	3	9	27	(1) Caiff y rhaglen waith ei datblygu ar y cyd gan y Swydd Rhaglen i'w llofnodi gan y Grŵp	Y Grŵp Gweithredol a'r Bwrdd	Wedi Cau	Wedi Cau	Y Bwrdd Uchelgais

Cyfeirnod	Teitl	Disgrifiad o'r Risg	A Tebygolrwydd (0-10)	B Effaith (0-10)	Cyfanswm Gwerth Risg (A x B)	Lliniaru	Gweithred gyda	Gweithred gan	Statws	Perchnogaeth
	unol â GA1.	gyfarfod y bwrdd ar 1 Chwefror. Mae angen i holl aelodau'r Bwrdd brynu i mewn i'r rhaglen waith gan y bydd yn gyrru costau'r rhaglen ac yn siapio monitro sut mae uchelgeisiau'r Bwrdd yn cael eu cyflawni.				Gweithredol a'r Bwrdd. (3) Felly, byddai symud i benodi/rhoi adnoddau i Gyfarwyddwr Rhaglen a swyddfa rhaglen yn lleihau'r risg o raglen waith annigonol sydd heb ei hystyried yn iawn na fyddai'n ennyn cefnogaeth y Bwrdd.				
HT 02	Sefydlu sesiynau herio gyda Gweinidogion	Anallu neu oedi wrth sefydlu sesiynau herio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.	6	8	48	(1) Cyflwyno Achosion Busnes Amlinellol a'r Cynllun Gweithredu i'r ddwy Lywodraeth. (2) Sefydlu sesiynau herio yn gynnar fel bod dyddiadau yn y dyddiaduron yn barod.	Cyfarwyddwr Arweiniol / LI y DU / LIC	<u>Wedi Cau</u>	<u>Wedi Cau</u>	Y Bwrdd Uchelgais
GO 02	Risg o fethu gwneud Penodiad y Corff Atebol	Diffyg cytundeb am Gorff Atebol a ddewisir ar gyfer GA2.	2	10	20	(3) Parhau gyda Gwynedd fel Corff Atebol dan Gytundeb Llywodraethu 1. (2) Parhau gyda thrafodaethau gyda Chyngor Gwynedd i gymryd y rôl corff atebol.	Prif Weithredwr Arweiniol a Chyngor Gwynedd	<u>Wedi Cau</u>	<u>Wedi Cau</u>	Y Bwrdd Uchelgais
Tud. 19 HT 01	Penawdau'r Telerau	Methu cyrraedd Penawdau'r Telerau o fewn yr amserlen gytunedig. Er mwyn cyflawni Penawdau'r Telerau erbyn 31/07/2019 mae llawer i'w wneud ac mae hynny'n awgrymu risg uchel o beidio â chyflawni Penawdau'r Telerau mewn pryd.	2	10	20	(1) Cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu ar gais y ddwy Lywodraeth. (2) Ymagwedd i Benawdau'r Telerau fel y nodwyd o fewn y llythyrau i'r ddwy Lywodraeth (25/03/2019). (3) Achosion Busnes Amlinellol boddhaol i'r llywodraethau. (4) Sesiynau Herio gyda Gweinidogion y ddwy Lywodraeth cyn Penawdau'r Telerau. (4) Cynnal deialog cryf gyda'r ddwy Lywodraeth, er mwyn trafod unrhyw faterion.	Pob partner	<u>Wedi Cau</u>	<u>Wedi Cau</u>	Y Bwrdd Uchelgais
		Materion ynghylch y geiriad o fewn y Penawdau'r Telerau - yn benodol gyda phrosiectau Gwedd 2	2	10	20	(1) Y Bwrdd Uchelgais i drafod a drafftio'r Penawdau'r Telerau gyda'r ddwy Lywodraeth. (5) Rhannu a thrafod y Penawdau'r Telerau drafft gyda'r Grŵp Swyddogion Gweithredol a'r Bwrdd Uchelgais.	Pob partner	<u>Wedi Cau</u>	<u>Wedi Cau</u>	Y Bwrdd Uchelgais
HT 04	Cymeradwyo Achosion Busnes Amlinellol	Methu cytuno/llofnodi Achosion Busnes Amlinellol (gan LI y DU a LIC).	4	10	40	(4) Cyflwyno'r Achosion Busnes Amlinellol diwygiedig i'r ddwy Lywodraeth erbyn diwedd Mawrth 2019. (5) Cyfarfodydd wyneb yn wyneb rheolaidd gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i drafod yr Achosion Busnes Amlinellol. (6) Y Bwrdd Uchelgais a'r Bwrdd Cyflawni Busnes i herio'r Achosion Busnes Amlinellol. (2) Sesiynau Herio gyda Gweinidogion y ddwy Lywodraeth cyn Penawdau'r Telerau.	Y Bwrdd Uchelgais / LI y DU / LIC	<u>Wedi Cau</u>	<u>Wedi Cau</u>	Y Bwrdd Uchelgais

Cyfeirnod	Teitl	Disgrifiad o'r Risg	A Tebygolrwydd (0-10)	B Effaith (0-10)	Cyfanswm Gwerth Risg (A x B)	Lliniaru	Gweithred gyda	Gweithred gan	Statws	Perchnogaeth
HT 05	Oedi yn cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu	Methu cytuno ar Gynllun Gweithredu'r Cynllun Twf. Mae'r cynllun gweithredu yn ddibynnol ar gyflawni ymagwedd ddeuol a llofnodi Penawdau'r Telerau (h.y. gwybod beth rydym yn bwriadu ei weithredu)	5	5	25	(1) Cyflwyno Cynllun Gweithredu Drafft i'r Grŵp Gweithredol a'r Bwrdd Uchelgais yn ystod Mawrth 2019. (2) Cyflwyno Cynllun Gweithredu Drafft i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru erbyn diwedd Mawrth 2019. (3) Adnabod ymagwedd ddeuol ar gyfer Penawdau'r Telerau.	Y Bwrdd Uchelgais / LI y DU / LIC	<u>Wedi Cau</u>	<u>Wedi Cau</u>	Y Bwrdd Uchelgais
GO 10	Cytuno ar y Cylch Gorchwyl gyda'r Bwrdd Cyflawni Busnes	Methu cytuno ar Gylch Gorchwyl y Bwrdd Cyflawni Busnes.	3	8	24	(1) Adroddiad am Gylch Gorchwyl y Bwrdd Cyflawni Busnes i'w gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais ar 12/04/2019.	Swyddfa Rhaglen a'r Bwrdd Cyflawni Busnes	<u>Wedi Cau</u>	<u>Wedi Cau</u>	Y Bwrdd Uchelgais
PO 01	Cyfarwyddwr Rhaglen	Methu recriwtio / penodi Cyfarwyddwr Rhaglen	5	10	50	(1) Cytuno ar y broses recriwtio. (4) Bwrw ymlaen yn amserol.	Pob partner	<u>Wedi Cau</u>	<u>Wedi Cau</u>	Y Bwrdd Uchelgais a'r corff atebol
PO 04	Rheolwyr Rhaglen	Methu penodi Rheolwyr Rhaglen.	3	6	18	(1) Cytuno ar broses recriwtio. (2) Proses benodi gadarn a chynhwysol.	Pob partner	<u>Wedi Cau</u>	<u>Wedi Cau</u>	Y Bwrdd Uchelgais
Tud. 29 GO 08	Sefydlu'r Is-bwyllgorau	Methu sefydlu'r is-bwyllgorau, i fodloni'r gofynion sydd wedi'u hamlinellu o fewn y Cytundeb Llywodraethu. Methu datblygu Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgorau.	6	8	48	(1) Sefydlu'r Is-bwyllgorau yn ôl yr angen. (2) Adran Gyfreithiol y Corff Atebol i gefnogi gyda drafftio cylch gorchwyl.	Pob partner Y Grŵp Gweithredol i ddechrau	<u>Wedi Cau</u>	Heb agor eto	Y Bwrdd Uchelgais
PO 03	Cais Capasiti Sefydliadol ESF	Methu sicrhau arian ESF i gefnogi gwaith y Swyddfa Rhaglen.	3	6	18	(1) Cyflwyno OLT i WEFO yn amserol. (2) Cyflwyno Cynllun Busnes Llawn i WEFO. (3) Sicrhau a chytuno ar arian cyfatebol. (2) Ymrwymiad adnoddau i ddatblygu'r cais.	Corff Atebol / WEFO	<u>Wedi Cau</u>	<u>Wedi Cau</u>	Y Bwrdd Uchelgais
CSP 02	Rhwydwaith Busnes Gogledd Cymru	Risg o ddyblygu gyda model rhanbartholi Llywodraeth Cymru a diffyg cefnogaeth Lywodraeth Cymru a'r Cynghorau o ganlyniad	6	8	48	(1) Dyrchafu i'r Gweinidog. (2) Cyd-fenter i ennyn cefnogaeth o fewn Llywodraeth Cymru. (3) Gwelededd ac atebolrwydd clir i'r Bwrdd ar gyfer trafodaethau negodi. (4) Gweithio ar y cyd yn agos rhwng cynghorau er mwyn cytuno ar fodel sy'n derbyn cefnogaeth yr holl gynghorau. (5) Adroddiad i'r Bwrdd Uchelgais yn ystod mis Medi 2019.	Pob partner	<u>Wedi Cau</u>	<u>Wedi Cau</u>	Rhwydwaith Busnes Gogledd Cymru

Meini Prawf yr Aseu


POSIBILRWYDD (A)	Uchel	10	10	20	30	40	50	60	70	80	90	100
		9	9	18	27	36	45	54	63	72	91	90
		8	8	16	24	32	40	48	56	64	72	80
		7	7	14	21	28	35	42	49	56	63	70
		6	6	12	18	24	30	36	42	48	54	60
	Posib	5	5	10	15	20	25	30	35	40	45	50
		4	4	8	12	15	20	24	28	32	36	40
		3	3	6	9	12	15	20	21	24	27	30
		2	2	4	6	8	10	15	14	16	18	20
	Posibilrwydd Prin	1	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10
			1	2	3	4	5	6	7	8	9	10
			Isel iawn		Canolig				Uchel iawn			
EFFAITH (B)												

Allwedd

HT	Penawdau'r Telerau
GO	Llywodraethu
FIN	Cyllid
PO	Swyddfa Rhaglen
CSP	Strategaethau a Phrosiectau a Gomisiynwyd
LP	Cyfreithiol a Chaffael
MP	Monitro a Gwerthuso
SEC	Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid

Rheoli fersiynau

Fersiwn	Dyddiad	Manylion y newidiadau neu sylwadau
V1	11/01/2019	Drafft wedi'i ddatblygu
V2	23/01/2019	Drafft wedi'i ddiwygio gan weithgor bach
V3	28/01/2019	Drafft wedi'i ddiwygio gan Stephen Jones i'w gyflwyno i Grŵp Gweithredol y Bwrdd Uchelgais am sylwadau.
V4	29/01/2019	Diwygiadau ac Ailfformatio gan Nia Medi Williams
V5		
V6	30/01/2019	Diwygiadau gan Stephen Jones (ar adborth gan y Prif Weithredwr Arweiniol)
V7	02/04/2019	Diwygiadau yn dilyn cyfarfod y Grŵp Cefnogaeth Weithredol ar 29/03/2019.
V8	02/07/2019	Newidiadau
V9	02/09/2019	Diweddariad yn dilyn cyfarfod y Bwrdd Uchelgais ar 26/07/2019
V10	01/10/2019	Diwygiadau yn dilyn cyfarfod y Grŵp Cefnogaeth Weithredol ar 06/09/2019
V11	16/12/2019	Diwygiadau yn dilyn cyfarfod y Bwrdd Uchelgais ar 15/11/2019
V1`2		Diweddaru i'w gyflwyno i'r Grŵp Gweithredol a'r Bwrdd Uchelgais



ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

31 Gorffennaf, 2020

TEITL: Cytundeb Llywodraethu 2

AWDUR: Iwan G. D. Evans, Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno Cynllun GA2 wedi'i ddiweddarau i'r Bwrdd ac adrodd ar ddeilliannau'r Gweithdy Llywodraethu.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Cymeradwyo yr amserlen.

3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Mae cytundeb y bartneriaeth yn allweddol i gytuno ar Gytundeb Llywodraethu 2 cynhwysfawr ("GA2"). Adroddwyd i'r cyfarfod blaenorol ar y materion yma. Mae'r adroddiad yma yn diweddarau yr amserlen ar gyfer y gwaith.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Adroddwyd ar gynllun prosiect arfaethedig GA2 i'r Bwrdd Uchelgais ym mis Mai 2019. Amlinellodd hyn y camau a ragwelwyd ar gyfer paratoi'r ddogfen fel paratoad i lofnodi'r Cynllun Twf Terfynol. Mae cynllun diwygiedig drafft sy'n adnabod y camau sydd wedi'u cymryd a'r camau gweithredu nesaf wedi'i amgáu gyda'r adroddiad hwn fel **Atodiad 1**. I grynhoi, rydym bellach mewn sefyllfa lle mae'r ddogfen ddrafft a baratowyd gan ein hymgynghorwyr arbenigol, Pinsents, wedi bod allan am sylwadau gan y sefydliadau Partner. Er ein bod wedi derbyn rhai ymatebion, rydym yn dal i aros am rai eraill.
- 4.2. Mae GA2 yn ddogfen sy'n cyfundrefnu perthynas ac ymrwymiad y partion yn bennaf, ynghyd â'u cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd ynghyd â sefydlu'r fframwaith llywodraethu cefnogol.
- 4.3. Mae'r gwaith hyd yma wedi galluogi datblygu GA2 drafft sy'n cymryd sawl elfen o GA1. Hefyd, mae'n adlewyrchu'r newid allweddol o GA1 i GA2, sef o gefnogi'r cais a'r broses gymeradwyo i fod yn gytundeb ar gyfer cyflawni'r Cynllun Twf a'r Weledigaeth Twf. Gall hefyd ddarparu'r sail ar gyfer Cydweithio pellach ac ehangach yn y dyfodol.

5. AMSERLEN

- 5.1. Mae llithriad anorfod wedi bod yn y bwriad ac mae amserlen ddiwygiedig wedi ei atodi ar gyfer cefnogi yr amcan o gael Cytundeb Terfynol mewn lle erbyn Rhagfyr 2020. Yn y cyd-destun yma mae'n briodol parhau i nodi fod y amserlen yma yn heriol ac yn mynd i olygu ymrwymiad gan y budd ddeiliaid i'w chyflawni. Yn anorfod mae elfennau sydd yn dal yn destun ail gychwyn er sefydlu amserlen penodol. Mae'r tabl canlynol yn gosod allan y llwybr penderfyniad arfaethedig ar gyfer yr awdurdodau lleol. Mae'r tabl elfennau amlwg yn gyd-ddibynadwy a bydd angen i'r

Partneriaid eraill fod mewn sefyllfa i gymeradwyo y ddogfennaeth i'r un amserlen drwy eu trefniadau llywodraethu.

Penderfyniad sydd ei angen	Craffu	Penderfyniad
Mabwysiadu GA2	Craffu Llywodraethu	Cabinet ar gyfer Llywodraethu a dirprwyo a Cyngor Llawn ar gyfer trefniadau Craffu
Mabwysiadu Cynllun Busnes	Craffu Datblygu Economaidd. Craffu Rhaglenni, Modelau Ariannol a Chynllun Gweithredu. Trefniadau newid Rhaglenni a dirprwyo	Cabinet a Chyngor Llawn
Awdurdodi Awdurdod Arweiniol i arwyddo CTT	Rhan annatod o'r eitemau uchod ond bydd angen Craffu Llywodraethu yn arbennig felly o safbwynt yr Awdurdod Lletya	Cabinet a Chyngor Llawn

6. GOBLYGIADAU ARIANNOL

6.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol penodol.

7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1. Mae'r adroddiad yn ymdrin â pharatoi cytundeb llywodraethu cyfreithiol y bydd goblygiadau cyfreithiol iddo. Bydd y rhain yn destun cyngor a mewnbwn arbenigol wrth iddynt gael eu datblygu.

8. GOBLYGIADAU STAFFIO

8.1. Dim ar hyn o bryd.

9. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

9.1. Dim ar hyn o bryd.

11. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIYD

9.1. Trafodwyd cynnwys yr adroddiad hwn yn y Grŵp Cefnogaeth Weithredol ar 17 Gorffennaf, 2020.

ATODIADAU:

Atodiad 1 Amserlen ddiwygiedig ar gyfer paratoi GA2

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:

Awdur yr adroddiad.

ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):

“Rwyf wedi cydweithio gyda swyddogion perthnasol i gyfrannu at agweddau ariannol yn y prosiect Cytundeb Llywodraethu 2 ac rwy'n cefnogi'r cynnig i'r Bwrdd gymeradwyo'r amserlen sydd wedi'i ddiweddarau.”

ATODIAD 1 - Amserlen ddiwygiedig ar gyfer paratoi GA2

Gweithred	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Gorffen	Arweinydd	Statws	Sylw
Cynhadledd gychwynnol gyda Pinsents	13/05/2019	13/05/2019	Cyfreithiol		
Cylchredeg rhestr o Faterion Cychwynnol a Holiadur gyda drafft cychwynnol GA1	23/08/2019	14/06/2019	Cyfreithiol		
Comisiynu ffrydiau gwaith / arweiniad penodol gan y Grŵp Gweithredol Cyllid a'r Partneriaid	20/05/2019	I'w benderfynu fel rhan o ffrwd gwaith o fewn amserlen gytŷn yn seiliedig ar y Rhaglen Waith gyffredinol.	Arbenigedd Cyfreithiol a pherthnasol		
Adolygu'r ymatebion a pharatoi drafft gweithiol cychwynnol o GA2	17/06/2019	30/06/2019	Cyfreithiol		
Adrodd i'r Grŵp Gweithredol / Gweithdy	05/07/2019	05/07/2019	Cyfreithiol		
Cynnal Gweithdy gyda Pinsents i adolygu'r ymatebion	23/10/2019	23/10/2019			
Paratoi ail ddrafft diwygiedig o GA2	I'w baratoi a'i ddsbarthu ar 28/11/2020	Dyddiad cau i dderbyn Ymatebion 07/02/20	Cyfreithiol		
Adrodd ar gynnydd i'r Grŵp Gweithredol 6/2/2020		06/02/2020	Cyfreithiol		
Gweithdy Llywodraethu ar Faterion Allweddol		14/02/2020			
Adrodd ar gynnydd i'r Bwrdd Uchelgais		12/06/2020	Cyfreithiol		Adroddiad wedi ei gylchredeg
Cytuno ar sail Cyfraniadau'r Partneriaid ac atebolrwydd ac indemniad cymesur	06/03/2020	Yn unol ag amserlen mabwysiadu GA2	Swyddogion Cyllid y Partneriaid		Trefnir Gweithdy ar y materion ariannol ar gyfer aelodau'r Bwrdd Uchelgais yn Mis Awst gyda adroddiad opsiynau i'w gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd yn Mis Awst ar gyfer ffurfio argymhellion.
Adnabod Dewisiadau er mwyn dosbarthu costau benthycu tybiannol er mwyn ymdrin â llif arian negyddol	06/03/2020	Yn unol ag amserlen mabwysiadu GA2	Swyddfa Rhaglen a Swyddogion Cyllid		Trefnir Gweithdy ar y materion ariannol ar gyfer aelodau'r Bwrdd Uchelgais yn Mis Awst gyda adroddiad opsiynau i'w gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd yn Mis Awst ar gyfer ffurfio argymhellion.
Adnabod Dewisiadau Masnacholi ar gyfer Rhaglenni a Phrosiectau	06/03/2020	I'w gadarnhau	Swyddfa Rhaglen gyda Swyddogion Cyfreithiol a Chyllid.		Trefnir Gweithdy ar y materion ariannol ar gyfer aelodau'r Bwrdd Uchelgais yn Mis Awst gyda adroddiad opsiynau i'w gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd yn

					Mis Awst ar gyfer ffurfio argymhellion.
Cynllun Busnes Cyffredinol	06/03/2020	Caiff hyn ei benderfynu yn sgil datblygiad y prosiect ehangach a pha mor aeddfed yw'r wybodaeth a chonsensws ar elfennau allweddol a fydd yn bwydo i mewn i'r ddogfen	Swyddfa Rhaglen gyda Swyddogion Cyfreithiol a Chyllid.		
Model Drafft ar gyfer Craffu	20/03/2020	30/09 2020	Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratiaeth		Gellir paratoi hwn mewn tandem a'r uchod. Mae'r model a ffafrir sydd wedi ei sefydlu o amgylch Pwyllgorau Craffu Cyfredol yn dal angen cytundeb y Cynghorau unigol. Bydd yn ffurfio rhan o GA2 ar gyfer cymeradwyaeth.
Diweddaru Cyrff Partneriaeth ar gynnydd a chamau nesaf	01/09/2020	30/09 2020	Swyddfa Rhaglen		Cynhelir cyfres o weithdai ar gyfer y cyrff ac yn benodol aelodau etholedig y Cynghorau yn ystod Mis Medi. Amcan y rhain yw codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r daith i Benawdau Telerau a'r camau nesaf.
Adroddiad i brosesau democrataidd a Phartneriaid ar fodelau arfaethedig a dogfennaeth terfynol.	01/10/2020	30/11/2020	Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratiaeth		Dyddiadau Pwyllgorau Craffu ar gyfer Mis Hydref a Cabinet a Chyngor yn ystod Tachwedd.
Sicrhau cytundeb ar y drafft terfynol	Caiff hyn ei benderfynu yn sgil datblygiad y prosiect ehangach a pha mor aeddfed yw'r wybodaeth a chonsensws ar elfennau allweddol a fydd yn bwydo i mewn i'r cytundeb.	Tachwedd 2020	Cyfreithiol		Canlyniad yr uchod.
Paratoi drafft terfynol ar gyfer cadarnhad a chymeradwyaeth.	Bydd angen i hyn fod yn unol â'r Rhaglen Waith gyffredinol	Tachwedd/Rhagfyr 2020	Cyfreithiol		Dylai fod yn "fformaliti" i yn sgil cam blaenorol
Cwblhau'r Cytundeb	Yn gyfochrog â'r broses gymeradwyo ar gyfer y Cynllun Twf.	Rhagfyr 2020	Cyfreithiol		Dylai fod yn "fformaliti" yn sgil cam blaenorol

ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

31 Gorffennaf, 2020

TEITL: *Cynllun Twf Gogledd Cymru - Ymgysylltu â'r Sector Preifat*

AWDUR: *Alwen Williams, Cyfarwyddwr Rhaglen*

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Cyflwyno trosolwg o'r berthynas a'r sianeli ymgysylltu cyfredol rhwng Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r sector preifat yn y Gogledd (**Atodiad 1**).
- 1.2. Cyflwyno diweddariad i'r aelodau ar statws Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy fel partner i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (**Atodiad 2**).
- 1.3. Cyflwyno Cylch Gorchwyl drafft arfaethedig a gyflwynwyd i'w ystyried gan Gadeirydd dros dro y Grŵp Cyflawni Busnes (**Atodiad 3**).
- 1.4. Cynnig y camau nesaf a'r dull o gryfhau perthynas, ymgysylltiad ac ymglymiad y sector preifat yng Nghynllun Twf Gogledd Cymru (**Atodiad 4**).

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Nodi statws y perthnasau a'r sianeli ymgysylltu cyfredol gyda'r Sector Preifat.
- 2.2. Nodi bwriad Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy i dynnu'n ôl fel partner i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.
- 2.3. Nodi Cylch Gorchwyl drafft a gyflwynir gan Gadeirydd dros dro'r Grŵp Cyflawni Busnes a gofyn am adroddiad pellach gan y Cyfarwyddwr Rhaglen mewn ymgynghoriad â Swyddog Monitro'r Awdurdod Lletya ar y diwygiadau arfaethedig i gylch gorchwyl y Grŵp Cyflawni Busnes a fabwysiedir gan y Bwrdd Uchelgais.
- 2.4. Cadarnhau'r camau a'r gweithredoedd nesaf arfaethedig i wella ymgysylltu a dealltwriaeth y sector preifat.

3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Mae angen penderfyniad er mwyn galluogi i'r Swyddfa Rhaglen fuddsoddi mewn dylunio a chyflawni mecanweithiau ar gyfer gwella ymgysylltu gyda'r sector preifat yn y Gogledd.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Mae prosiectau'r Cynllun Twf wedi'u dylunio i helpu'r rhanbarth i oresgyn y rhwystrau i fuddsoddi y mae'r sector preifat yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Mae'r dull o gyflawni'r Cynllun Twf yn llwyddiannus wedi'i seilio ar berthynas gref a chydweithredol rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU, partneriaid rhanbarthol a'r sector preifat.

4.2. O'r cychwyn cyntaf, mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi cynnwys Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy fel partner. Mae'r berthynas hon wedi galluogi i lais y gymuned fusnes, sy'n aelodau o'r Cyngor Busnes, gael ei gynrychioli.

4.3. Chwarae rôl ganolog wrth gefnogi, herio a chynghori'r gwaith o ddylunio a chyflawni ymyraethau allweddol i fynd i'r afael â'r rhwystrau a'r problemau hynny.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Dim.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Er yn weithredol yng ngwaith y Bwrdd Uchelgais, nid oedd Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy yn bartïon yng Nghytundeb Llywodraethu 1.

7. GOBLYGIADAU STAFFIO

7.1. Dim.

8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

8.1. Dim.

9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIYD

9.1. Derbyniwyd y cynnig gan Gyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy ar 16 Mehefin 2020.

9.2. Ar 7 Gorffennaf 2020, fe wnaeth Cadeirydd a Chyfarwyddwr Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gyfarfod â Chadeirydd ac Is-gadeirydd Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy i drafod cyfleoedd posib i gryfhau'r berthynas gyda'r sector preifat drwy'r Cyngor Busnes.

9.3. Anfonodd y Swyddfa Rhaglen arolwg byr at aelodau'r Grŵp Cyflawni Busnes i ddeall y teimlad cyfredol tuag at gydweithio ac ymgysylltu gyda Chynllun Twf Gogledd Cymru.

ATODIADAU:

- | | |
|------------------|--|
| Atodiad 1 | Trosolwg o ymgysylltu'r sector preifat gyda'r Cynllun Twf |
| Atodiad 2 | Crynodeb o lythyr a dderbyniwyd gan Gyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy |
| Atodiad 3 | Cylch Gorchwyl drafft arfaethedig a dderbyniwyd gan y Grŵp Cyflawni Busnes |
| Atodiad 4 | Cynnig ar gyfer cryfhau Ymgysylltiad â'r Sector Preifat |
-

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:

“Mae’r adroddiad yn amserol ac yn cynnig camau cadarnhaol i ddatblygu perthynas y Bwrdd Uchelgais a’r sector breifat yn sgil penderfyniad NWMDBC. Sefydlwyd y Bwrdd Cyflawni Busnes gan y Bwrdd Uchelgais yn Ebrill 2019 i fod yn gorff oedd l’w gynghori, magu cysylltiadau a dod ac arbenigedd, buddsoddiad a phrofiad ymlaen. Mae’n synhwyrol fod adolygiad yn cymryd lle ac mae’r cylch gorchwyl drafft a baratowyd gan Gadeirydd y Bwrdd Datblygu Busnes yn gosod sail ar gyfer yr adolygiad. Fodd bynnag fel corff a sefydlwyd gan y Bwrdd Uchelgais a sydd yn cael ei gydnabod yn y Penawdau Telerau mae’n bwysig fod yr adolygiad yn sicrhau y cydbwysedd priodol yn y berthynas o safbwynt llywodraethu da ond hefyd sicrhau fod y drefn yn effeithiol ac yn cyfarch anghenion y Bwrdd Uchelgais.”

ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):

“Cyflwynir sylwadau pellach ar lafar, fel bo angen, yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor (BUEGC).”

ATODIAD 1

Cynllun Twf Gogledd Cymru - Ymgysylltu â'r Sector Preifat

Cefndir

Yng nghyfarfod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Bwrdd Uchelgais) ar 12 Mehefin 2020, gwnaed penderfyniad i ohirio bwrw ymlaen â'r broses o benodi Cadeirydd ar gyfer y Bwrdd Cyflawni Busnes er mwyn rhoi cyfle i'r Bwrdd Uchelgais ystyried a oedd angen diwygio rôl y Bwrdd Cyflawni Busnes.

Nodwyd gweithred bod angen ymgynghori pellach gyda chynrychiolwyr y sector preifat a chyflwyno adroddiad pellach ac argymhellion i'r Bwrdd Uchelgais.

Diweddariad ar gynnydd a'r camau sydd wedi'u cymryd

Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy

- Fe wnaeth Cadeirydd a Chyfarwyddwr Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gyfarfod â Chadeirydd ac Is-gadeirydd Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy i drafod cyfleoedd posib i gryfhau'r berthynas gyda'r sector preifat drwy'r Cyngor Busnes. Cyflwynwyd cynnig i'w ystyried lle byddai'r Cyngor Busnes yn cynnull Senedd Busnes newydd a fyddai'n cynnwys 60 busnes unigol o ledled y Gogledd i gynrychioli llais cyflawn y busnesau.
- Derbyniodd Cadeirydd ac Is-gadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru lythyr yn datgan eu bwriad i dynnu'n ôl fel partner yn sgil newid i flaenoriaethau ac amgylchiadau o ganlyniad i Covid-19 a'r angen i ganolbwyntio adnoddau ar gefnogi'r sefydliadau sy'n aelodau yn y sector preifat yn uniongyrchol yn y cyfnod hwn (**Atodiad 2**).

Grŵp Cyflawni Busnes

- Mae Dyfrig Siencyn, Cadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, wedi mynychu dau gyfarfod diwethaf y Grŵp Cyflawni Busnes a bydd yn parhau i fynychu'n rheolaidd.
- Mae rôl ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Grŵp Cyflawni Busnes wedi'i throsglwyddo i'r Swyddfa Rhaglen. Daethpwyd i'r penderfyniad hwn ar y cyd yn sgil y ffaith fod Covid-19 yn golygu bod yr ysgrifenyddiaeth gyfredol, sef Gerry Beer, Prifysgol Glyndŵr, yn addasu eu blaenoriaethau
- Anfonodd y Swyddfa Rhaglen arolwg byr at aelodau'r Grŵp Cyflawni Busnes i ddeall y teimlad cyfredol tuag at gydweithio ac ymgysylltu gyda Chynllun Twf Gogledd Cymru.
- Mae'r Grŵp Cyflawni Busnes wedi cydweithio i greu Cylch Gorchwyl drafft sy'n amlinellu eu fframwaith arfaethedig ar gyfer cydweithio gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (**Atodiad 3**).

Crynodeb o'r sefyllfa gyfredol

Mae'r ffaith fod Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy wedi tynnu'n ôl fel aelod o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn gadael y Bwrdd heb bartner cynrychioladol a all gyfrannu a siarad ar ran y sector preifat yn y Gogledd. Gwahoddir Cadeirydd y Grŵp Cyflawni Busnes i fynychu pob cyfarfod o'r Bwrdd Uchelgais fel ymgynghorydd.

Mae'r berthynas gyda'r corff ymgynghorol, y Grŵp Cyflawni Busnes, yn cryfhau. Mae canlyniad yr arolwg a wnaed gydag aelodau wedi rhoi meysydd clir i ni ar gyfer cynyddu ymgysylltiad ond mae hefyd yn adnabod bod rhai gweithredoedd sydd eisoes wedi'u rhoi yn eu lle yn cael effaith.

ATODIAD 2

Llythyr a dderbyniwyd gan Gyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy

Ar 16 Gorffennaf 2020, ysgrifennodd Cadeirydd Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy at y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Cadeirydd y Bwrdd Uchelgais, yn rhoi gwybod am eu bwriad i dynnu'n ôl o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Mae'r llythyr yn egluro bod effaith Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar eu busnes, ar sefydliadau sy'n Aelodau o'r Cyngor Busnes ac, o ganlyniad, ar y Cyngor Busnes ei hun.

Mae'n mynd ymlaen i nodi:

"Os ydym am barhau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i economi'n rhanbarth, mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ein hadnoddau cyfyngedig iawn lle mae eu hangen fwyaf, a lle gallwn gael yr effaith uniongyrchol fwyaf. Fel y gwyddoch, dros y blynyddoedd diweddar, rydym wedi neilltuo llawer o'n hadnoddau ar weithio law yn llaw gydag aelodau eraill y Bwrdd Uchelgais a'r Swyddfa Rhaglen ganolog, bellach, i helpu i ffurfio a chyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru."

"Gyda hynny mewn cof, yn anffodus, bydd rhaid i ni dynnu'n ôl yn ffurfiol o'r Bwrdd Uchelgais, gan nad oes gennym yr adnoddau ar gael i'w rhoi i waith y Bwrdd Uchelgais yn ogystal â'r gwaith o ganolbwyntio ar y sector preifat/sicrhau ein dyfodol yn yr hir-dymor. Rydym wedi gosod dyddiad i dynnu'n ôl fel 3 Awst 2020."

"Dros y blynyddoedd diweddar, mae'r Cyngor Busnes a'i aelodaeth wedi gwerthfawrogi'r bartneriaeth gydag aelodau eraill a swyddogion y Bwrdd Uchelgais a dymunwn dynnu'n ôl ar sail gyfeillgar. Byddwn yn parhau'n agored iawn i drefnu i'n haelodaeth a'r sector preifat ehangach ymgysylltu ar y Bwrdd Uchelgais a'r Cynllun Twf ond, fel nifer o sefydliadau eraill, rydym wedi gorfod gwneud dewisiadau anodd yn sgil effaith Covid-19."

ATODIAD 3

Grŵp Cyflawni Busnes Cynllun Twf Gogledd Cymru

Cylch Gorchwyl Drafft, 22 Gorffennaf 2020

Pwrpas y grŵp:

Cefnogi'r Bwrdd Uchelgais wrth gyflawni'r adenillion gorau ar fuddsoddiad gan Gynllun Twf Gogledd Cymru.

Aelodaeth:

- Hyd at 18 o aelodau, y cyfan o fusnesau yn y sector preifat.
- Rhaid i aelodau anelu i fod ar gael i fynychu o leiaf 80% o'r cyfarfodydd.
- Rhaid i 80% o'r aelodau gael hanes wedi'i brofi mewn entrepreneuriaeth ac adeiladu eu busnesau llwyddiannus eu hunain.
- Rhaid i'r aelodau fod yn annibynnol eu meddwl ac yn angerddol dros Ogledd Cymru a'i ddatblygiad economaidd.
- Yn ddelfrydol, rhaid i aelodau gael rhwydwaith ehangach o fusnesau, yn enwedig o fewn y Gogledd.
- Lle bo hynny'n bosib, bydd yr aelodaeth yn gytbwys ar draws y sectorau busnes amrywiol a bydd ganddynt brofiad yn eu plith o fuddsoddi cyfalaf.
- Bydd y grŵp yn anelu i fod mor amrywiol â phosib.
- Caiff aelodau'r grŵp eu dewis yn ôl eu hanes a'u profiad, ac nid oes rhaid iddynt fod o Ogledd Cymru.
- Bydd Aelodau'r Grŵp Cyflawni Busnes wedi'u henwebu gan y Cadeirydd a'u cymeradwyo gan y Grŵp.
- Bydd holl aelodau'r grŵp, yn cynnwys y cadeirydd, wedi'u dewis am ddwy flynedd a gallant sefyll i barhau am ddwy flynedd bellach os yw'r grŵp yn cymeradwyo hynny.
- Y Bwrdd Uchelgais neu'r Swyddfa Rhaglen fydd yn ymgymryd â holl dreuliau'r Grŵp.
- Bydd cadeirydd y Grŵp a'r aelodau yn cynnig eu gwaith ar sail wirfoddol yn unig.
- Bydd y Grŵp yn penodi Is-gadeirydd ar ei ddisgresiwn, os bydd angen.

Y fanyleb ar gyfer cadeirydd y grŵp:

- Entrepreneur gyda hanes cadarn mewn adeiladu busnesau.
- Profiad o weithio â llywodraeth leol, Llywodraethau Cymru a'r DU.
- Arweinydd a all gynrychioli'r Gogledd a'r Iefel Genedlaethol a Rhyngwladol.
- Arweinydd sydd ag ymwybyddiaeth o botensial economaidd y Gogledd.
- Person credadwy ac sy'n cael ei barchu o fewn y gymuned fusnes.
- Person sydd â gwybodaeth am feysydd y rhaglenni sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen weledigaeth.

Bydd cynrychiolwyr y Bwrdd Uchelgais a'r Grŵp Cyflawni Busnes yn dewis Cadeirydd y Grŵp ar y cyd.

Bydd y cadeirydd yn gweithio'n agos iawn gyda Chyfarwyddwr Rhaglen Cynllun Twf Gogledd Cymru a chadeirydd/is-gadeirydd y Bwrdd Uchelgais.

Atebolrwydd:

- Bydd y Grŵp yn gweithredu fel corff annibynnol.
- Bydd y Grŵp yn craffu ac yn dadansoddi holl brosiectau'r Cynllun Twf a bydd yn adrodd ar ei ganfyddiadau ac yn rhoi adborth i'r Bwrdd Uchelgais. Bydd Cadeiryddion y ddau gorff yn nodi ac yn adrodd ar sail ffurfiol pa lefel o gefnogaeth neu bryder sy'n gysylltiedig â phob prosiect o fewn Rhaglenni'r Cynllun Twf ac yn adrodd ar unrhyw eitemau a godir yn ffurfiol i bawb sydd ynghlwm â'r prosiect.
- Bydd gan Gadeirydd y Bwrdd Uchelgais wahoddiad agored i'r Grŵp Cyflawni Busnes i godi unrhyw faterion o bryder neu deilyngdod.
- Y cadeirydd fydd y person cyfrifol am adrodd am argymhellion a chyngor y Grŵp i'r Bwrdd Uchelgais ar bob prosiect.

Adolygu:

- Caiff y cylch gorchwyl eu hadolygu gan y Grŵp bob chwe mis a'u diwygio fel sy'n briodol.

Cyfarfodydd

- Rhaid i'r Grŵp gyfarfod o leiaf chwe gwaith y flwyddyn. Bydd holl aelodau'r Grŵp yn cyfarfod gyda'i gilydd.
- Y Swyddfa Rhaglen fydd yn trefnu'n lleoliad.
- Bydd ysgrifenyddiaeth yn galw'r cyfarfod a bydd cadeirydd y Grŵp yn cadeirio'r cyfarfod.
- Bydd y Cadeirydd yn penderfynu ar yr eitemau ar y rhaglen ar gyfer pob cyfarfod.
- Bydd papurau'r cyfarfod yn cael eu cylchredeg bythefnos cyn y cyfarfod.
- Bydd gwahoddiad i gynrychiolwyr y Swyddfa Rhaglen a'r Bwrdd Uchelgais, nad ydynt yn aelodau, i'r cyfarfodydd fel sy'n briodol.
- Bydd y Swyddfa Rhaglen yn darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer y grŵp.
- Bydd aelodau'r Grŵp yn craffu ac yn herio prosiectau'r Cynllun Twf a dylid eu hystyried yn "rhanddeiliaid y rhaglen/prosiect" sydd angen cadarnhau'n anffurfiol gynlluniau, gweithgareddau a gweithredoedd unrhyw raglen/prosiect cysylltiedig. Caiff yr argymhellion terfynol eu cyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais.
- Gellir gwahodd arbenigwyr annibynnol allanol i'r cyfarfodydd fel sydd angen er mwyn rhoi cyngor.

ATODIAD 4

Mae nifer o weithredoedd yn cael eu cynnig i gefnogi parhau i gryfhau ymgysylltiad y sector preifat.

Os caiff gefnogaeth y Bwrdd, bydd y Swyddfa Rhaglen yn arwain ar y gwaith hwn a bydd yn cyflwyno adroddiad ar y cynnydd i'r cyfarfod nesaf.

1. Datblygu strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu sy'n diffinio'n glir y sector preifat fel cynulleidfa allweddol ar gyfer negeseuon ac ymglymiad ac sy'n darlunio'r sianeli i hyn ddigwydd. Bydd y strategaeth yn cynnwys datblygu sianel gyfathrebu ar-lein lle gellir targedu gwaith y Bwrdd Uchelgais Economaidd at sectorau a diwydiannau allweddol i helpu i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.
2. Parhau i weithio gyda'r Grŵp Cyflawni Busnes i gryfhau perthnasau ac adeiladu ar y ddealltwriaeth a'r ymglymiad wrth ddatblygu achosion busnes y rhaglenni.
3. Cynnig ar sut i ddod â phartner i gynrychioli'r sector preifat i weithio gyda'r Bwrdd Uchelgais o ystyried yr amgylchiadau sydd wedi'u hamlinellu gan Gyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy.
4. Asesu a gweithredu opsiynau i weithio gyda phartneriaid presennol y Cynllun Twf ar ddull cyd-gysylltiedig i adeiladu ymgysylltiad ac ymglymiad y sector preifat. Dylai hyn deimlo fel symudiad a fydd, unwaith y bydd wedi ennill dealltwriaeth a chefnogaeth, yn adeiladu momentwm a chefnogaeth wrth i ni weithio tuag at gyflawni'r Cynllun Terfynol eleni.